

# Adroddiad Blynyddol y Gymraeg

2024-2025

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

## Adroddiad Blynyddol y Gymraeg

### 2024-2025

---

## Cynnwys

Cyflwyniad  
Llywodraethu  
a Strwythur

3

Newid  
Diwylliant ac  
Ymarfer

4

Darparu  
gwybodaeth  
ddwyieithog i'r  
claf a'r cyhoedd

10

Safonau  
Cyflenwi  
Gwasanaethau

12

Safonau'r  
Sefydliad

13

Recriwtio

13

Pryderon  
ynghylch y  
Gymraeg

13

Sgiliau  
Cymraeg Staff

14

Casgliad a  
Gweledigaeth  
ar gyfer  
2025-2026

14

# Cyflwyniad

Ar 30 Mai 2019, daeth Mesur y Gymraeg (2011) i rym gan osod dyletswyddau deddfwriaethol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o ran y Gymraeg. Mae'r gofynion penodol y mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd gydymffurfio â hwy, a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, ar gael [yma](#). Fel y nodir yn yr hysbysiad cydymffurfio, rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddarparu gwasanaeth i gleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd sydd wedi nodi bod yn well ganddynt siarad Cymraeg. Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddarparu ystod o wasanaethau i'w staff drwy gyfrwng y Gymraeg.



Mae stori'r Gymraeg yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn unigryw. Yn ôl ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cymru, wrth ystyried canran y boblogaeth leol sy'n siarad Cymraeg, roedd Caerdydd yn yr 8fed safle, gyda 28% o'r boblogaeth breswyl yn siarad yr iaith. Roedd Bro Morgannwg yn y 19eg safle, gyda 18.5% o'r bobl sy'n byw yn yr ardal yn siaradwyr Cymraeg. Wrth ystyried nifer wirioneddol y rhai sy'n siarad Cymraeg, Caerdydd sydd ar frig y rhestr gyda 102,000 o bobl, sy'n uwch nag unrhyw ranbarth arall yng Nghymru. Mae gan Fro Morgannwg 18,000 o siaradwyr Cymraeg, sy'n golygu eu bod yn y 18fed safle yng Nghymru.<sup>1</sup>

# Llywodraethu a Strwythur

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb corfforaethol dros Safonau'r Gymraeg, ac mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant yn gyfrifol ar lefel y Bwrdd. Mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar gyfer Datblygu Sefydliadol, Lles a Diwylliant ochr yn ochr â'r Uwch-reolwr Tegwch a Chynhwysiant yn darparu arweinyddiaeth strategol.

Mae Swyddog y Gymraeg, sy'n gweithio o fewn Tîm Tegwch a Chynhwysiant y Bwrdd Iechyd, yn gyfrifol am y Safonau o ddydd i ddydd ac yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer y Safonau a materion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

Mae'r BIP yn derbyn sicrwydd bod ei wasanaethau yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg drwy'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Ymdrinnir â'r cwynion a dderbynnir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac ymatebir iddynt drwy ddefnyddio dwy broses. Ymdrinnir â'r holl bryderon ynghylch gofal cleifion a phrofiad cleifion drwy'r broses Gweithio i Wella, a weinyddir gan dîm pryderon y Bwrdd Iechyd. Ymdrinnir yn uniongyrchol â phryderon yn ymwneud â chydymffurfio mewn meysydd corfforaethol gan Swyddog y Gymraeg. Mae proses y pryderon corfforaethol ar gael ar wefan y Bwrdd Iechyd.

<sup>1</sup> Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth – Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol - <https://statswales.gov.wales>

# Newid Diwylliant ac Ymarfer

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Gymraeg

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro yn chwarae rhan arwyddocaol wrth gefnogi agenda'r Gymraeg.



Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cefnogi agenda'r Gymraeg drwy hyrwyddo gwasanaethau dwyieithog, cynnig hyfforddiant i staff, a sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod themâu trawsbynciol rhwng yr iaith Gymraeg a thegwch a chynhwysiant. Cydnabyddir bod cysylltiad rhwng y Gymraeg ac oedran neu iechyd meddwl, er enghraifft cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth sydd wedi cael diagnosis o ddementia.

Trwy integreiddio'r Gymraeg i'r cynllun cyffredinol, mae'n meithrin amgylchedd cynhwysol sy'n parchu amrywiaeth ieithyddol ac yn hyrwyddo cydraddoldeb.

## Diwrnodau Ymwybyddiaeth

**Meddwl  
Think  
Cymraeg  
Welsh**

Mae'r Bwrdd wedi parhau i ddefnyddio diwrnodau ymwybyddiaeth cenedlaethol i hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys Dydd Santes Dwynwen, Dydd Miwsig Cymru a Diwrnod Shw'mae.

Hyrwyddwyd Diwrnod Santes Dwynwen gan y Bwrdd Iechyd drwy dynnu sylw at angerdd eu staff am y Gymraeg, sy'n chwarae rhan hanfodol wrth feithrin cysylltiadau cymunedol a gwella gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dathlwyd Diwrnod Shw'mae yn y Bwrdd Iechyd ar 15 Hydref. Roedd yn ddiwrnod wedi'i neilltuo i annog defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn lleoliadau gofal iechyd. Pwysleisiodd y cysur a'r cynhwysiant y mae cleifion yn ei deimlo pan siaradir â nhw yn eu dewis iaith, a all fod yn hanfodol i'w lles a'u hadferiad.

**Roedd y mentrau a gynhaliwyd ar y dydd yn cynnwys hybu sesiynau datblygu sgiliau Cymraeg a deunyddiau eraill i annog aelodau o staff i gyfarch cleifion yn Gymraeg.**

**Dathlodd y Bwrdd Iechyd Ddydd Gŵyl Dewi drwy dynnu sylw at angerdd y staff am y Gymraeg, gan arddangos eu hymrwymiad i dreftadaeth ddiwylliannol a chynhwysiant iaith mewn gofal iechyd.**

## Diwrnodau Gyrfaoedd Cymraeg

Cymerodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ran yn y diwrnod gyrfaoedd blynyddol a drefnwyd gan Gyngor Caerdydd mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd. Gwnaeth y digwyddiad, a gynhaliwyd yn Neuadd Undeb Prifysgol Caerdydd, ddenu dros 500 o fyfyrwyr a rhoddodd gyfle i dynnu sylw at lwybrau gyrfa posibl i fyfyrwyr addysgedig cyfrwng Cymraeg, gan ddangos sut y gellir defnyddio eu hyfedredd yn y Gymraeg yn y sector gofal iechyd.



Mae staff wedi ymweld ag ysgolion lleol i hyrwyddo gyrfaoedd gofal iechyd a phwysleisio pwysigrwydd sgiliau Cymraeg. Mae'r ymweliadau hyn yn ysbrydoli myfyrwyr i ystyried gyrfaoedd gofal iechyd, gan ddangos sut mae hyfedredd yn y Gymraeg yn fuddiol i ddarparu gofal cynhwysol. Roedd cyflwyniadau yn tynnu sylw at gyfleoedd gofal iechyd amrywiol a gwerth dwyieithrwydd, gan baratoi gweithwyr proffesiynol y dyfodol i wasanaethu cymunedau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## Datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu

Yn unol â'i amcanion strategol i hyrwyddo dwyieithrwydd a meithrin amgylchedd gwirioneddol gynhwysol, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cryfhau ei bartneriaeth â Dysgu Cymraeg Caerdydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r berthynas gydweithredol hon wedi'i chynllunio i ddarparu ystod amrywiol o lwybrau dysgu'r Gymraeg, gan ddiwallu anghenion amrywiol o ran hyfedredd a gofynion proffesiynol. Drwy gynnig rhaglenni a gweithdai pwrpasol, nid yn unig y mae'r bartneriaeth yn mynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol staff sy'n ceisio gwella eu sgiliau Cymraeg ond mae hefyd yn sefydlu fframwaith cefnogol ar gyfer datblygiad ieithyddol parhaus. Mae'r mentrau hyn wedi'u teilwra'n ofalus i feithrin hyder staff mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol, gan sicrhau bod gweithwyr yn barod i integreiddio'r Gymraeg i'w rhyngweithiadau dyddiol yn y gweithle a'r gymuned ehangach.

Yn ystod y cyfnod 2024/2025, mae'r Bwrdd Iechyd wedi atgyfnerthu ymhellach ei ymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg trwy gynghrair barhaus â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r bartneriaeth hon wedi ehangu cyfleoedd datblygu staff wedi'u targedu, yn enwedig

drwy gyflwyno a gwella cyrsiau fel y Cwrs Croeso a'r Cwrs Codi Hyder. Mae'r cyrsiau hyn wedi'u strwythuro'n benodol i gefnogi staff ar wahanol gamau o'u taith iaith, o'r rhai sy'n dechrau dysgu Cymraeg am y tro cyntaf i unigolion sy'n ceisio mireinio a chryfhau eu sgiliau sgwrsio. Mae darparu'r rhaglenni pwrpasol hyn nid yn unig yn hwyluso cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ond hefyd yn grymuso staff i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n parchu dewisiadau ieithyddol a hunaniaeth ddiwylliannol.

Drwy'r ymdrechion cydweithredol hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ei ddull rhagweithiol o ddatblygu'r gweithlu, gan ymgorffori egwyddorion tegwch, hygyrchedd a chymhwysedd diwylliannol ar bob lefel o'r sefydliad. Drwy fuddsoddi mewn hyfforddiant cynhwysfawr yn y Gymraeg, mae'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau y gall pob claf, defnyddiwr gwasanaeth, a'u teuluoedd gael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith, a thrwy hynny wella profiad y claf, gwella cyfathrebu, a chefnogi canlyniadau iechyd cadarnhaol. Mae'r ffocws parhaus ar ddulliau datblygu iaith sy'n cael eu gyrru gan bartneriaeth yn tanlinellu rôl y Bwrdd Iechyd fel arweinydd wrth hyrwyddo amrywiaeth ieithyddol o fewn y sector gofal iechyd yng Nghymru.

## Cwrs Croeso

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ehangu darpariaeth y cwrs Croeso mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Caerdydd, fel rhan o'i ymrwymiad parhaus i wella darpariaeth yn y Gymraeg o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r Cwrs Croeso wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer cydweithwyr sydd â fawr ddim gwybodaeth flaenorol am y Gymraeg, gan roi cyflwyniad hygyrch a chefnogol iddynt i'r Gymraeg. Mae'r cwrs sylfaen hwn wedi'i gynllunio i arfogi staff â sgiliau iaith hanfodol, gan eu galluogi i ddarparu gwasanaethau sylfaenol yn y Gymraeg a meithrin y gallu i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth gyfathrebu yn eu dewis iaith.

Hyd yn hyn, mae cyfanswm o 86 aelod o staff wedi cwblhau'r cwrs Croeso, sy'n adlewyrchu dull rhagweithiol y Bwrdd Iechyd o adeiladu gweithlu dwyieithog. Drwy rymuso staff i ymgysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn y Gymraeg, hyd yn oed ar lefel sgwrsio sylfaenol, mae'r fenter yn cyfrannu'n sylweddol at wella profiad cleifion, hyrwyddo cynhwysiant, a chefnogi amcanion strategol y Bwrdd Iechyd o ran amrywiaeth ieithyddol.

Gall y ffaith bod staff yn gallu cyfarch, cynorthwyo ac ymateb i gleifion yn y Gymraeg wneud gwahaniaeth ystyrlon i gysur a lles defnyddwyr gwasanaeth, yn enwedig i'r rhai sy'n teimlo'n fwy cyfforddus yn cyfathrebu yn eu hiaith gyntaf.

Ar ben hynny, mae'r cwrs Croeso yn gam pwysig i staff sy'n dymuno datblygu eu galluoedd yn y Gymraeg ymhellach. Mae llawer o gyfranogwyr wedi defnyddio'r sgiliau a'r hyder a gafwyd o'r rhaglen gyflwyniadol hon fel sylfaen ar gyfer mynd ar drywydd cyfleoedd dysgu'r Gymraeg ar lefel uwch, gan ddangos diwylliant cynyddol o ddatblygiad ieithyddol o fewn y Bwrdd Iechyd.

Mae llwyddiant parhaus y cwrs Croeso yn tanlinellu ymroddiad y Bwrdd Iechyd i ddarparu gofal teg sy'n canolbwyntio ar y claf ac i ymgorffori ystyriaethau'r Gymraeg mewn ymarfer bob dydd ar draws pob lefel o'r sefydliad.

Drwy flaenoriaethu cyflwyno hyfforddiant yn y Gymraeg a meithrin amgylchedd lle mae staff yn cael eu hannog i barhau â'u taith ddysgu, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro nid yn unig yn bodloni Safonau statudol y Gymraeg ond mae hefyd yn hyrwyddo egwyddorion cynhwysiant a pharch at dreftadaeth ieithyddol o fewn lleoliadau gofal iechyd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r amcanion ehangach a amlinellir yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac yn cefnogi'r weledigaeth o system gofal iechyd sy'n hygyrch, yn ymatebol, ac yn sensitif yn ddiwylliannol i anghenion amrywiol y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

## Codi Hyder

Mae'r cwrs Codi Hyder wedi'i gynllunio'n benodol i gefnogi aelodau staff sydd eisoes yn meddu ar lefel resymol o allu yn y Gymraeg ond a allai deimlo'n betrusgar neu'n ansicr o ran defnyddio'r Gymraeg mewn sgysiau bob dydd. Gan gydnabod bod hyder yn aml yn rhwystr allweddol i siarad ail iaith yn y gweithle, mae'r cwrs yn rhoi cyfle i gyfranogwyr gymryd rhan mewn sesiynau un-i-un gyda thiwtor Cymraeg profiadol. Mae'r sesiynau personol hyn wedi'u teilwra i fynd i'r afael â heriau unigol, gan ganiatáu i staff weithio trwy eu rhwystrau eu hunain, boed y rheini'n gysylltiedig ag ynganiad, geirfa, neu oresgyn nerfau wrth siarad Cymraeg gyda chydweithwyr neu gleifion.

Drwy gydol y cwrs, anogir cyfranogwyr i ymarfer senarios sgwrsio bywyd go iawn y gallent ddod ar eu traws yn ystod eu gwaith bob dydd neu ryngweithiadau cymdeithasol. Mae'r dull ymarferol hwn yn sicrhau bod y sgiliau iaith a gafwyd yn uniongyrchol berthnasol i'r amgylchedd gofal iechyd, fel cyfarch cleifion, cynnal trafodaethau sylfaenol, neu ateb y ffôn yn ddwyieithog. Mae'r awyrgylch cefnogol a grëir gan y tiwtor yn helpu i feithrin ymddiriedaeth a chymhelliant, gan ei gwneud hi'n haws i staff gamu y tu hwnt i'w parth cysur a defnyddio'r Gymraeg yn fwy naturiol.

O ganlyniad i'r cwrs Codi Hyder, bu gwelliant amlwg yn lefelau hyder y rhai sydd wedi mynychu. Hyd yn hyn, mae 19 aelod o staff wedi cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, ac mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Mae llawer o fynychwyr wedi nodi eu bod bellach yn teimlo'n llawer mwy cyfforddus yn cychwyn sgysiau yn y Gymraeg, yn y gwaith ac yn eu bywydau personol. Mae'r cwrs hefyd wedi meithrin ymdeimlad o gymuned ymhlith cyfranogwyr, wrth iddynt rannu eu profiadau a'u cynnydd, gan annog ymhellach y defnydd o'r Gymraeg ar draws gwahanol dimau ac adrannau.

Mae llwyddiant parhaus y cwrs Codi Hyder yn amlwg yn nifer cynyddol y staff sydd nid yn unig yn mwynhau'r sesiynau ond sydd hefyd yn manteisio ar y cyfle i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg yn amlach a chyda mwy o hunanhyder. Mae'r fenter hon yn cyd-fynd ag ymrwymiad ehangach

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i hyrwyddo dwyieithrwydd, cynhwysiant, a gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, gan sicrhau bod staff a defnyddwyr gwasanaeth yn elwa ar amgylchedd ieithyddol amrywiol a chroesawgar.

Dyma rai sylwadau gan bobl sydd wedi mwynhau'r cwrs:

***“Rwyf wedi mwynhau'r sesiynau hyn. Maen nhw wedi fy annog i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy yn y gweithle, yn enwedig gyda fy nghydweithwyr.”***

*“Rwy'n mwynhau'r sesiynau yn fawr ac yn gweld Nia yn hawdd iawn i sgwrsio â hi ac yn llawn gwybodaeth. Maen nhw wedi rhoi'r hyder i mi siarad â staff a chleifion yn y gwaith yn Gymraeg.”*

*“Tu allan i'r gwersi, dwi wedi dechrau gwrandao ar bodlediadau Cymraeg, yn ogystal a darllen llyfrau Gymraeg. Dwi'n fwy hyderus yn siarad Cymraeg efo ffrindiau.”*

*“Mae'r sesiynau wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth fagu fy hyder i siarad Cymraeg eto. Er fy mod wedi mynychu dosbarthiadau nos rhwng 2007-2009, doeddwn i ddim wedi sylweddoli faint roeddwn i wedi'i gofio a faint roeddwn i wedi'i anghofio! Mae fy nghydweithwyr Cymraeg wedi bod yn siarad â mi yn Gymraeg bob dydd sy'n fy ngalluogi i ymarfer cymaint ag y gallaf. Rwy'n ateb y ffôn yn ddwyieithog, a gobeithio y byddaf yn gwneud fy ngorau i siarad â nhw yn Gymraeg os yw galwr yn siarad Cymraeg.”*

## **Cyrsiau Preswyl yn Nant Gwrtheyrn**

Roedd y Bwrdd Iechyd hefyd wedi bod yn hyrwyddo'n weithredol y cyrsiau preswyl a oedd yn cael eu hariannu'n llawn gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r cyrsiau ymdrwythol hyn, a gynhelir yn Nant Gwrtheyrn, yn cynnig cyfle unigryw i staff dreulio sawl diwrnod mewn amgylchedd Cymraeg ei iaith, gan ganiatáu iddynt ddatblygu eu sgiliau iaith yn ddwys a magu mwy o hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu mewn a'r tu allan i'r gweithle. O ganlyniad uniongyrchol i'r hyrwyddiad hwn, roedd dau aelod o staff yn gallu mynychu'r rhaglen breswyl. Yn ystod eu hamser ar y cwrs, fe wnaethon nhw gymryd rhan mewn gwersi strwythuredig, gweithgareddau diwylliannol, a sesiynau sgwrsio a gynlluniwyd i wella nid yn unig eu galluoedd ieithyddol ond hefyd eu dealltwriaeth o dreftadaeth Cymru. Roedd yr adborth gan y mynychwyr yn gadarnhaol iawn, gyda staff yn nodi bod y profiad wedi cynyddu eu cymhelliant i barhau i ddysgu ac i ddefnyddio'r Gymraeg yn amlach wrth ryngweithio â chleifion a chydweithwyr. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi mentrau o'r fath, gan gydnabod bod datblygu sgiliau Cymraeg staff trwy gyrsiau preswyl yn cyfrannu'n sylweddol at ei nod o ddarparu gofal cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y claf yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## Cydweithio â gwasanaethau cyhoeddus eraill yn Ardal Caerdydd a'r Fro

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cefnogi Strategaeth 'Caerdydd Ddwyieithog' Cyngor Dinas Caerdydd i godi ymwybyddiaeth a defnydd o'r Gymraeg yn y ddinas.

Trwy bartneriaeth â Dysgu Cymraeg, mae staff wedi magu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a'r cartref, gan hyrwyddo nodau'r strategaeth.

Gall staff sy'n cofrestru ar ein Cwrs Croeso nawr ddefnyddio'r Gymraeg gyda ffrindiau, teulu a'r gymuned ehangach. Gwnaeth y Bwrdd Iechyd gymryd rhan yn Ffair Yrfaedd Caerdydd a arweiniodd at ddatblygu ymdrechion y cyngor i hyrwyddo gyrfaedd Cymraeg a chynorthwyo prosesau recriwtio'r Bwrdd Iechyd.



## Fforwm Caerdydd


Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau yn ei rôl o fod yn aelod gweithgar o Fforwm Iaith Gymraeg Caerdydd a Bro Morgannwg. Trwy'r fforwm, mae'r Bwrdd Iechyd wedi meithrin perthynas gydweithredol â sefydliadau a mentrau allweddol eraill yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro, gan gynnwys Menter Iaith Caerdydd a Menter y Fro (Menter Iaith Bro Morgannwg). Mae hyn wedi arwain at y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda sefydliadau lleol eraill ar brosiectau mawr gan gynnwys

cynhadledd y Gymraeg mewn Gyrfaoedd i fyfyrwyr.

## Rhwyd-iaith

Ers sefydlu

Rhwyd-iaith dros ddwy flynedd yn ôl, mae gennym ni 100 o aelodau bellach, ac mae'r swm yn cynyddu



**Rhwyd-iaith**

bob wythnos wrth i'r ymwybyddiaeth ohono ledaenu. Mae gennym sianel Teams fywiog nawr, sy'n cynnwys negeseuon wythnosol am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar draws y Bwrdd Iechyd ac yng Nghaerdydd a'r Fro. Rhennir gwybodaeth am glybiau sgwrsio, cerdyn atgoffa sydd ar gael i gynorthwyo aelodau o staff i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ateb y ffôn a hyrwyddo diwrnodau pwysig, fel "Diwrnod Shw'mae".

Yn ogystal, mae tudalen Rhwydiaith wedi'i sefydlu drwy wefan Viva Engage. Mae'r dudalen yn parhau i gael ei defnyddio i hyrwyddo gweithgareddau a digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae'r sianel hefyd yn cael ei defnyddio i ddod o hyd i wirfoddolwyr, i gymryd rhan mewn digwyddiadau allanol a chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg gymryd rhan mewn treialon, fel y system ESR newydd. Cynigiwyd cyfle hefyd i aelodau o Rhwyd-iaith gymryd rhan yn y cwrs 'Codi Hyder' a gynigir gan Dysgu Cymraeg, a chafodd yr holl leoedd eu llenwi. Mae gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn hefyd wedi cael ei rhannu gyda'r aelodau, gyda sawl un wedi manteisio ar y cyfle.

# Darparu gwybodaeth ddwyieithog i'r claf a'r cyhoedd


## Uned Gyfieithu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae'r Uned yn parhau i ddarparu gwasanaeth cyfieithu effeithiol ar gyfer BIPCAF.

Dros 2024-2025, cyfieithodd yr uned bron i 1.4 miliwn o eiriau, gan gynnwys ystod eang o ddogfennau fel gwybodaeth i gleifion, gwybodaeth gyhoeddus a dogfennau corfforaethol.


Mae'r graff isod yn dangos faint o eiriau a gyfieithwyd gan yr Uned yn ystod 2024-2025. Mae'r graff yn dangos cynnydd yn nifer y geiriau a gyfieithwyd yn ystod y cyfnod dwy flynedd hwn.

Mae'r Uned wedi cael effaith gadarnhaol hynod ar y Bwrdd Iechyd, gyda llawer o gydweithwyr yn canmol y gwaith a'r gefnogaeth y maent wedi'i ddarparu mewn ardaloedd rheng flaen i sicrhau eu bod yn cynnig gwybodaeth ddwyieithog i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau.



## Cytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Uned Gyfieithu Caerdydd Ddwylieithog

Parhaodd y Bwrdd Iechyd i weithio gyda 'Caerdydd Ddwylieithog', y gwasanaeth cyfieithu Cymraeg a reolir gan Gyngor Dinas Caerdydd, yn unol â'r cytundeb lefel gwasanaeth sydd ar waith, i gynyddu capasiti cyfieithu'r sefydliad. Yn ystod 2024-2025 cyfieithodd Caerdydd Ddwylieithog dros 727,127 o eiriau ar gyfer y Bwrdd Iechyd; ac maent wedi cyfieithu ychydig dros 5 miliwn o eiriau ar gyfer y Bwrdd ers 2019.



# Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

## Cynnydd gan y Byrddau Clinigol

Mae'r Byrddau Clinigol yn gwella gwasanaethau Cymraeg drwy gynnig gohebiaeth yn Gymraeg a datblygu gwybodaeth i gleifion, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gleifion a'u teuluoedd.

Yn ogystal ag ehangu gohebiaeth ysgrifenedig a llafar yn Gymraeg, mae'r Byrddau Clinigol yn sicrhau bod deunyddiau cleifion yn ddiwylliannol berthnasol ac yn hygyrch. Drwy hyrwyddo dwyieithrwydd ac annog staff i gymryd rhan mewn hyfforddiant Cymraeg, maent yn ymdrechu i feithrin amgylchedd croesawgar lle mae cleifion a'u teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u deall. Mae'r ymdrechion hyn wedi'u cynllunio nid yn unig i wella mynediad at wybodaeth feddygol ond hefyd i gryfhau ymddiriedaeth a boddhad ymhlith y boblogaeth Gymraeg, gan gyfrannu at brofiadau gofal iechyd mwy cadarnhaol yn gyffredinol.

Mae Byrddau Clinigol hefyd yn parhau i sicrhau bod eu staff yn cofrestru eu sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn ei dro wedi annog staff i gymryd rhan mewn gwarsi Cymraeg, gan gydnabod y gall gwell hyfedredd iaith wella'r cyfathrebu â chleifion a'u gofal. Trwy fuddsoddi mewn datblygiad staff drwy'r gwarsi hyn, nod y Bwrdd yw cryfhau'r

gwasanaethau dwyieithog a ddarperir, meithrin cysylltiadau dyfnach â chleifion sy'n siarad Cymraeg, a chreu amgylchedd gofal iechyd mwy cynhwysol ac ymatebol.

## Cynnydd o feysydd Anghlinigol

Mae tîm cyfathrebu'r Bwrdd wedi bod yn gweithio i sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg. Er enghraifft, mae wedi bod yn gweithio i sicrhau bod ei wefan ar gael yn gwbl ddwyieithog. Mae'r system gymeradwyo newydd a reolir gan y tîm cyfathrebu wedi golygu na ellir cyhoeddi tudalennau sydd newydd eu creu neu eu diweddarau ar y wefan oni bai eu bod ar gael yn gwbl ddwyieithog.

## Y Tîm Cyfathrebu

Fel rhan o agenda'r Gymraeg, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn defnyddio sianeli cyfathrebu presennol i hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg o ran gofal iechyd. Ar 6 Mehefin 2024, gwnaeth y fforwm staff misol a gynhaliwyd gan y Prif Weithredwr, Suzanne Rankin, wahodd Swyddog y Gymraeg i siarad â staff am bwysigrwydd y Gymraeg o fewn gofal iechyd. Cafodd y cyflwyniad emosiynol hwn, a oedd yn cynnwys straeon staff, ymateb cadarnhaol, ac o ganlyniad, mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn darparu'r opsiwn i staff ymgysylltu â'r fforwm staff misol yn Gymraeg.

Gan ddefnyddio cyfathrebu mewnol gyda chydweithwyr ar draws BIPCAF, mae'r tîm yn parhau i hyrwyddo agenda'r Gymraeg ar draws y sefydliad, gan gynnwys hyrwyddo'r gwarsi Cymraeg sydd ar gael i'r staff.

# Safonau'r Sefydliad

## SharePoint

Mae'r Tîm Tegwch, Cynhwysiant a'r Gymraeg wedi bod yn parhau i ddiweddarau'r SharePoint (gwefan wybodaeth fewnol) ar y Gymraeg. Dros 2024/2025, mae'r Uned Tegwch, Cynhwysiant a'r Gymraeg wedi gallu ehangu'r wybodaeth am y Gymraeg ymhellach o fewn y Bwrdd Iechyd drwy roi canllawiau a phwysleisio phwysigrwydd cynnig gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, mae tudalen wedi'i sefydlu sy'n rhannu straeon cleifion a theuluoedd ynghylch pam mae'r Gymraeg yn rhan mor annatod o wasanaeth gofal iechyd effeithiol. Mae gwefan SharePoint bellach yn darparu'r wybodaeth a'r newyddion diweddaraf am ddigwyddiadau a datblygiadau ynghylch y Gymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd.

### Why is Welsh Language in Healthcare important ?

Alan Williams (Cardiff and Vale UHB - Corporate Management)  
Welsh Language Officer

Mari describes the importance of using Welsh with her father who suffered Multiple Sclerosis atrophy - who faced difficulties in talking in English.



A video here shows the importance of using Welsh when chatting with patients who have developed illness. They can have trouble communicating with the medical staff in English.

Mae'r Tîm Tegwch, Cynhwysiant a'r Gymraeg wedi ehangu'r adran Gymraeg ar safle SharePoint yn 2024/2025, gan ychwanegu canllawiau a thynnu sylw at werth cynnig gofal iechyd yn Gymraeg.

Mae'r wybodaeth newydd yn cynnwys straeon cleifion a theuluoedd gan ddangos pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal effeithiol. Mae'r SharePoint bellach yn cynnwys gwybodaeth wedi'i diweddarau am ddigwyddiadau a datblygiadau ynghylch y Gymraeg o fewn y Bwrdd Iechyd.

## Recriwtio

*(Gwybodaeth yn ofynnol yn unol â'r Safonau)*

Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth am nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod 2023-2024 a'r math o sgiliau Cymraeg y gofynnwyd amdanynt:

| BIP Caerdydd a'r Fro 2024-2025                                  |      |
|---|------|
| Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd fel a ganlyn:        |      |
| Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol                                 | 3    |
| Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol                                 | 2487 |
| Mae angen dysgu sgiliau Cymraeg pan gewch eich penodi i'r swydd | 0    |
| Nid oes angen sgiliau Cymraeg                                   | 49   |
| Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd                      | 2539 |

# Pryderon ynghylch y Gymraeg

(Gwybodaeth yn ofynnol yn unol â'r Safonau)

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddwy system gwyno ffurfiol i ymdrin â chwynion a phryderon mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae'r system bryderon 'Gweithio i Wella' yn delio â phryderon ynghylch gofal cleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Tîm Pryderon yn cysylltu'n agos â'r Tîm Tegwch a Chynhwysiant i sicrhau bod unrhyw bryderon mewn perthynas â'r Gymraeg yn cael eu rheoli'n briodol. Ni dderbyniodd Tîm Profiad y Claf unrhyw gwynion ynghylch cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg gan aelodau'r cyhoedd yn ystod cyfnod adrodd 2023-2024.

Mae proses pryderon corfforaethol ar wahân ar gael ar gyfer pryderon anghlinigol a chorfforaethol. Mae copi o'r broses ar gael ar [wefan y Bwrdd Iechyd](#). Ni chafodd y Bwrdd unrhyw bryderon drwy'r llwybr hwn yn ystod 2024-2025.

# Sgiliau Cymraeg Staff

(Gwybodaeth yn ofynnol yn unol â'r Safonau)

Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth am nifer y staff wnaeth gofrestru eu sgiliau Cymraeg ar 31 Mawrth 2025:

| Gwranddo/Siarad Cymraeg      | Cyfrif pennau |
|------------------------------|---------------|
| 0 - No Skills / Dim Sgiliau  | 7044          |
| 1 - Entry/ Mynediad          | 1489          |
| 2 - Foundation / Sylfaen     | 335           |
| 3 - Intermediate / Canolradd | 217           |
| 4 - Higher / Uwch            | 262           |
| 5 - Proficiency / Hyfedredd  | 391           |
| Heb eu hasesu                | 8637          |
| Cyfanswm Terfynol            | 18375         |

# Casgliad a Gweledigaeth ar gyfer 2025-2026

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i wneud y Gymraeg yn rhan annatod o fywyd staff a darparu gwasanaethau. Mae'r dull hwn yn sicrhau cyfathrebu cynhwysol, sensitif yn ddiwylliannol ac yn cefnogi ein nod o ddarparu gofal rhagorol, parchu treftadaeth ieithyddol Cymru, a hyrwyddo ymdeimlad o gymuned ymhlith y rhai yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae'r ymgyrch 'Meddwl Cymraeg – Think Welsh' wedi helpu BIPCAF i ddechrau sefydlu newid diwylliannol drwy dynnu sylw at bwysigrwydd y Gymraeg. Mae'r ymgyrch wedi mwynhau adborth cadarnhaol ac mae'n helpu i hyrwyddo ac annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Fodd bynnag, cydnabyddir bod mwy i'w wneud o ran adeiladu diwylliant dwyieithog a darparu gwasanaeth dwyieithog i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Mae BIP Caerdydd a'r Fro yn edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod a bwrw ymlaen â'n gweledigaeth ar gyfer 2025-2026:

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau bod agenda'r Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio a'i hymgorffori yn strategaeth y sefydliad, fel y Cynllun Pobl a Diwylliant.

Fel rhan o ddull Comisiynydd y Gymraeg o gyd-reoleiddio â gwasanaethau iechyd, bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i gydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg ac yn gwella'r defnydd o'r Gymraeg yn ei wasanaethau drwy weithio ar y nodau canlynol yn 2025/2026:

- Parhau i gofrestru sgiliau Cymraeg aelodau staff.
- Parhau i integreiddio sgiliau Cymraeg i'r broses recriwtio.
- Ehangu argaeledd hyfforddiant Cymraeg i aelodau staff ar draws y bwrdd iechyd
- Ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith aelodau'r staff
- Parhau i weithio gyda Byrddau Clinigol i wella lefel gwasanaethau Cymraeg i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau.

